OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 885 (Cy.129)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r symiau sylfaenol a'r symiau uwch y caiff sefydliadau perthnasol godi tâl amdanynt drwy ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau gradd llawnamser.

Rhagnodir y symiau sylfaenol a'r symiau uwch at ddibenion amodau yn unol ag adran 28 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("Deddf 2004"), sef amodau at ddibenion adran 27 o Ddeddf 2004.

Mae adran 27 o Ddeddf 2004 yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod amodau ar grantiau i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("y Cyngor") yn ei gwneud yn ofynnol iddo osod amodau ar gymorth ariannol a roddir gan y Cyngor i gorff llywodraethu sefydliad perthnasol. Bydd yr amodau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu sicrhau nad yw'r ffioedd sy'n daladwy am gwrs cymhwysol gan berson cymhwysol yn uwch na'r swm sylfaenol a bennir yn y Rheoliadau hyn, neu, pan fo gan sefydliad gynllun wedi'i gymeradwyo sydd mewn grym, y swm a bennir yn y cynllun hwnnw nad yw i fynd yn uwch na'r swm uwch a ragnodir gan y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 3 yn rhagnodi'r symiau a fydd fel arfer yn gymwys. Ar gyfer rhai cyrsiau a bennir yn rheoliad 4, rhagnodir symiau is.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n gymwys i'r Rheoliadau hyn ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 885 (W.129)

# EDUCATION, WALES

## The Student Fees (Amounts) (Wales) Regulations 2011

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations prescribe the basic and higher amounts which relevant institutions may charge by way of tuition fees for full-time undergraduate courses.

The basic and higher amounts are prescribed for the purposes of conditions in accordance with section 28 of the Higher Education Act 2004 ("the 2004 Act"), being conditions for the purposes of section 27 of the 2004 Act.

Section 27 of the 2004 Act enables the Welsh Ministers to impose conditions on grants to the Higher Education Funding Council for Wales ("the Council") requiring it to impose conditions on financial support given by the Council to the governing body of a relevant institution. These conditions will require the governing body to secure that the fees payable for a qualifying course by a qualifying person do not exceed the basic amount specified in these Regulations, or, where an institution has an approved plan in force, the amount specified in that plan which is not to exceed the higher amount prescribed by these Regulations.

Regulation 3 prescribes the amounts which will ordinarily apply. For certain courses specified in regulation 4, lower amounts are prescribed.

The Regulatory Impact Assessment applicable to these Regulations is obtainable from the Welsh Assembly Government at: Cathays Park Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 885 (Cy.129)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Mawrth 2011* |
| *Yn dod i rym* | *31 Mawrth 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 28(6) a 47(5) o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Dyma'r rheoliadau cyntaf i gael eu gwneud o dan adran 28(6) o'r Ddeddf honno sy'n rhagnodi'r swm sylfaenol a'r swm uwch at ddibenion yr adran honno.

Yn unol ag adran 26(1) o'r Ddeddf honno(**3**) gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011 ac maent yn dod i rym ar 31 Mawrth 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 2004 p.8. Mae diwygiadau i adran 28 nad ydynt yn berthnasol at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) Yr un yw'r swyddogaeth o ragnodi'r swm sylfaenol a'r swm uwch sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o dan adran 28(6) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 neu yr un swyddogaeth yw hi yn sylweddol â swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 24(6) o'r Ddeddf honno. O dan adran 26(1) o'r Ddeddf honno, ni chaniateir gwneud y rheoliadau cyntaf o dan adran 24(1) o'r Ddeddf honno sy'n rhagnodi'r swm sylfaenol a'r swm uwch oni chafodd drafft o'r rheoliadau eu gosod gerbron dau Dŵr Senedd a'i gymeradwyo ganddynt drwy benderfyniad. Yn rhinwedd paragraff 34(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r ddarpariaeth yn gymwys i Weinidogion Cymru wrth iddynt arfer y swyddogaeth o wneud y rheoliadau cyntaf fel pe bai unrhyw gyfeiriad at unrhyw un o ddau Dŵr Senedd yn gyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 885 (W.129)

# EDUCATION, WALES

## The Student Fees (Amounts) (Wales) Regulations 2011

| | |
|---|---|
| *Made* | *21 March 2011* |
| *Coming into force* | *31 March 2011* |

These Regulations are made by the Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 28(6) and 47(5) of the Higher Education Act 2004(**1**) and now exercisable by them(**2**).

These are the first regulations to be made under section 28(6) of that Act prescribing the basic amount and the higher amount for the purposes of that section.

In accordance with section 26(1) of that Act(**3**) a draft of these Regulations was laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

**Title, commencement and application**

**1**.–(1) The title of these Regulations is the Student Fees (Amounts) (Wales) Regulations 2011 and they come into force on 31 March 2011.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(**1**) 2004 c.8. There are amendments to section 28 not relevant for the purposes of these Regulations.

(**2**) The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraphs 30(1) and 30(2)(c) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**3**) The function of prescribing the basic and higher amount now exercisable by the Welsh Ministers under section 28(6) of the Higher Education Act 2004 is the same or substantially the same as the function of the Secretary of State under section 24(6) of that Act. Under section 26(1) of that Act, the first regulations may not be made under section 24(1) of that Act prescribing the basic amount and the higher amount unless a draft of the regulations has been laid before and approved by a resolution of each House of Parliament. By virtue of paragraph 34(2) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), the provision applies to the exercise by the Welsh Ministers of the function of making the first regulations as if any reference to either House of Parliament were a reference to the National Assembly for Wales.

**Dehongli**

**2**. Yn y Rheoliadau hyn–

mae i "cwrs rhyngosod" ("*sandwich course*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 2(6) o Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2011(**1**);

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Addysg Uwch 2004;

ystyr "sefydliad tramor" ("*overseas institution*") yw sefydliad heblaw un yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw.

**Symiau sylfaenol a symiau uwch rhagnodedig**

**3**. Yn ddarostyngedig i reoliad 4, at ddibenion adran 28 o Ddeddf 2004, rhagnodir y swm sylfaenol yn £4,000 a'r swm uwch yn £9,000.

**Symiau sylfaenol a symiau uwch rhagnodedig ar gyfer cyrsiau penodedig**

**4**. At ddibenion adran 28 o Ddeddf 2004 rhagnodir y swm sylfaenol yn £2,000 a'r swm uwch yn £4,500 yn yr achosion a ganlyn:

(a) blwyddyn academaidd derfynol cwrs os yw'n ofynnol i'r flwyddyn academaidd honno fel rheol gael ei chwblhau ar ôl llai na 15 wythnos o bresenoldeb;

(b) mewn perthynas â chwrs rhyngosod, blwyddyn academaidd–

(i) pryd y mae cyfanswm unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos; neu

(ii) mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd honno ac unrhyw flynyddoedd academaidd blaenorol ar y cwrs, os yw cyfanswm unrhyw un neu fwy o gyfnodau o bresenoldeb nad ydynt yn gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad (gan anwybyddu gwyliau yn y cyfamser) yn fwy na 30 wythnos;

(c) mewn perthynas â chwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon (gan gynnwys cwrs o'r fath sy'n arwain at radd gyntaf), blwyddyn academaidd pryd y mae cyfanswm unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos;

(ch) mewn perthynas â chwrs a ddarperir ar y cyd â sefydliad tramor, blwyddyn academaidd–

(i) pryd y mae cyfanswm y cyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig yn llai na 10 wythnos; neu

(**1**) O.S. 2011/148 (Cy.32).

**Interpretation**

**2**. In these Regulations–

"the 2004 Act" ("*Deddf 2004*") means the Higher Education Act 2004;

"overseas institution" ("*sefydliad tramor*") means an institution other than one in Wales, England, Scotland, Northern Ireland, the Channel Islands or the Isle of Man;

"sandwich course" ("*cwrs rhyngosod*") has the meaning given in regulation 2(6) of the Assembly Learning Grants and Loans (Higher Education) (Wales) Regulations 2011(**1**).

**Prescribed basic and higher amounts**

**3**. Subject to regulation 4, for the purpose of section 28 of the 2004 Act, the basic amount is prescribed as £4,000 and the higher amount is prescribed as £9,000.

**Prescribed basic and higher amounts for specified courses**

**4**. For the purpose of section 28 of the 2004 Act the basic amount is prescribed as £2,000 and the higher amount is prescribed as £4,500 in the following cases:

(a) the final academic year of a course where that academic year is normally required to be completed after less than 15 weeks' attendance;

(b) in respect of a sandwich course, an academic year–

(i) during which any periods of full time study are in aggregate less than 10 weeks; or

(ii) if in respect of that academic year and any previous academic years of the course the aggregate of any one or more periods of attendance which are not periods of full time study at the institution (disregarding intervening vacations) exceeds 30 weeks;

(c) in respect of a course of initial training of teachers (including such a course leading to a first degree), an academic year during which any periods of full time study are in aggregate less than 10 weeks;

(d) in respect of a course provided in conjunction with an overseas institution, an academic year–

(i) during which any periods of full time study at the institution in the United Kingdom are in aggregate less than 10 weeks; or

(**1**) SI 2011/148 (W.32).

(ii) mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd honno ac unrhyw flynyddoedd academaidd blaenorol ar y cwrs, os yw cyfanswm unrhyw un neu fwy o gyfnodau o bresenoldeb nad ydynt yn gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig (gan anwybyddu gwyliau yn y cyfamser) yn fwy na 30 wythnos.

(ii) if in respect of that academic year and any previous academic years of the course the aggregate of any one or more periods of attendance which are not periods of full time study at the institution in the United Kingdom (disregarding intervening vacations) exceeds 30 weeks.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

21 Mawrth 2011

Minister for Children, Education and Lifelong Learning, one of the Welsh Ministers

21 March 2011

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.00

W919/04/11 ON